# DEDDF CAFFAEL Y GWASANAETH IECHYD (CYMRU) 2024

---

## EXPLANATORY NOTES

### TROSOLWG CYFFREDINOL O'R DDEDDF

4. Mae 5 adran i'r Ddeddf. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau yn Neddf Caffael 2023, a fyddai fel arall yn berthnasol wrth gaffael gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, i'r graddau y mae darpariaeth amgen wedi ei gwneud mewn cysylltiad â hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi Gweinidogion i greu cyfundrefn gaffael amgen newydd ar gyfer y gwasanaethau hyn. Nid yw'n rhagnodi manylion ynghylch cynnwys unrhyw gyfundrefn newydd, a fyddai'n cael eu nodi yn y rheoliadau a wneir o dan y p#er y mae'r Ddeddf yn ei fewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

5. Nid yw'r Ddeddf ond yn gymwys i gaffael gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd, a nwyddau neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny. Bydd ffurfiau eraill ar gaffael a gyflawnir gan y sector iechyd yn parhau'n ddarostyngedig i reolau presennol Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, hyd nes y caiff y rhain eu disodli gan unrhyw ddiwygiadau caffael ehangach yn y dyfodol.